Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-02-16 Papur 1 Atodiad 1 / Paper 1 Annexe 1

# Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

I archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol; tai; adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol; trechu tlodi; cyfle cyfartal a hawliau dynol.

## Cyfrifoldebau gweinidogol sy'n berthnasol

| Cyfrifoldeb | Yr Ysgrifennydd Cabinet neu'r Gweinidog sy'n gyfrifol |
|---|---|
| Bargeinion Dinesig; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Goruchwylio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a'i rhoi ar waith, a chysylltu â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Gweithio mewn ffordd strategol er mwyn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, rheoli perfformiad, trawsnewid gan ddefnyddio datblygiadau digidol a data, materion yn ymwneud â'r gweithlu, cydweithio, archwilio, arolygu, rheoleiddio a chynnwys y cyhoedd; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Diwygio Awdurdodau Lleol yn strwythurol, yn ddemocrataidd, yn ariannol ac yn gyfansoddiadol, gan gynnwys cydgysylltu modelau cyflawni rhanbarthol a'u cydlynu â Diwygio Llywodraeth Leol; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Materion cyfansoddiadol Llywodraeth Leol, trefniadau craffu, cabinetau, meiri etholedig, rôl cynghorwyr, eu hamrywiaeth, eu hymddygiad a'u tâl cydnabyddiaeth; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Trefniadau etholiadol Llywodraeth Leol, noddi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac amseriad etholiadau Awdurdodau Lleol; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Polisi cyllid Llywodraeth Leol a rhoi cyllid sydd heb ei neilltuo at ddibenion penodol i Awdurdodau Lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu drwy gyfrwng setliadau refeniw a setliadau cyfalaf Llywodraeth Leol; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Llywodraethu ariannol, ariannu a chyfrifyddu mewn perthynas â Llywodraeth Leol; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Trethi lleol, gan gynnwys y Dreth Gyngor, ardrethi annomestig, lleihau'r dreth gyngor a noddi | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a |

| | |
|---|---|
| Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio; | Llywodraeth Leol |
| Materion yn ymwneud â'r gweithlu Llywodraeth Leol (sy'n codi'n bennaf o'r broses ddiwygio) a noddi Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Cydraddoldeb, gan gwmpasu'r nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a hawliau dynol mewn perthynas â Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig a'r UE. | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Cymunedau yn Gyntaf; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Diwygio Lles; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Cynhwysiant ariannol, gan gynnwys undebau credyd; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Adfywio, gan gynnwys Ardaloedd Adfywio Strategol; adfywio etifeddol; a darparu safleoedd ac adeiladau, tir diffaith a chyflawni gwelliannau amgylcheddol mewn perthynas ag adfywio; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Gweithgareddau'r Awdurdodau Lleol a chymdeithasau tai mewn perthynas â thai, gan gynnwys rheoli tai a dyrannu tai cymdeithasol a fforddiadwy; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Cyflenwad ac ansawdd y farchnad, tai cymdeithasol a fforddiadwy; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Digartrefedd a chyngor ar dai | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Materion yn ymwneud â thai a ddarperir gan y sector rhentu preifat, gan gynnwys rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Cymorth ac addasiadau, gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Grantiau Addasu Ffisegol; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Rhoi cymorth yn ymwneud â thai (ond nid talu'r Budd-dal Tai); | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Rheoleiddio tenantiaethau masnachol sy'n cael eu gosod gan Awdurdodau Lleol; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Cydgysylltu materion mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr, ceiswyr lloches, mewnfudo, gweithwyr mudol a chydlyniant cymunedol (ac eithrio pan maent yn ymwneud yn benodol â phortffolios eraill a mesurau gwrthderfysgaeth); | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Polisi Troseddu a Chyfiawnder, gan gynnwys Cyfiawnder Ieuenctid; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Diogelwch Cymunedol, gan gynnwys y berthynas â | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a |

| | |
|---|---|
| Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu, yr Heddlu ac Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol eraill, cynlluniau sifil wrth gefn, parodrwydd am argyfwng a materion gwrthderfysgaeth; | Phlant |
| Y Gwasanaethau Tân ac Achub, gan gynnwys gwaith diogelwch rhag tân yn y gymuned; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Arweiniad ar bolisi mewn perthynas â'r Lluoedd Arfog yng Nghymru a Chyn-filwyr; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Caethwasiaeth, cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Y sector gwirfoddol a gwirfoddoli; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Y cyfrifoldeb arweiniol am fonitro materion sy'n ymwneud â Swyddfa'r Post a'r Post Brenhinol yng Nghymru. | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |